

*Annwyl Riant / Gofalwr,*

*Yn gynharach yr wythnos hon penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai ysgolion yng Nghymru gau i blant a phobl ifanc gyda'r eithriad o wneud darpariaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed, neu y mae eu rhieni yn hanfodol i'r ymateb Covid-19, er mwyn iddynt allu parhau i weithio, pan na ellir gwneud trefniadau gofal plant eraill.*

*Bu trafodaeth sylweddol dros y 24 awr ddiwethaf ynglŷn â'r ffordd y bydd ysgolion yn agor o ddydd Llun ymlaen a diolchaf i chi gyd am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod yr amseroedd anodd hyn.*

*Yn gyntaf rwyf eisiau pwysleisio mai pwrpas cau ysgolion yw cyfyngu a lleihau cyswllt cymdeithasol ac felly lleihau'r risg o heintio gan y coronafeirws.*

*Mae'n hanfodol eich bod yn cadw eich plant yn y cartref ble bynnag fo'n bosib er mwyn cyfyngu'r siawns o ledaenu'r feirws.*

*Yn unol â'r uchod byddwn yn cyfyngu presenoldeb yn ein hysgolion i rieni sydd ar linell flaen yr ymdrech genedlaethol i ymladd y clefyd coronafeirws yn unol â rhestr gweithwyr allweddol y llywodraeth i'r rhai a gyflogir o fewn;*

***Gofal iechyd a cymdeithasol*** - mae hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i feddygon, nyrsys, bydwagedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a staff iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys gwirfoddolwyr; y staff cefnogi ac arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU; y rhai sy'n gweithio fel rhan o'r gadwyn gyflenwi iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaethau a chyfarpar diogelu meddygol a phersonol.

***Addysg a gofal plant*** – mae hyn yn cynnwys staff meithrinfa ac addysgu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol addysg arbenigol y mae'n rhaid iddynt weithio yn ystod yr ymateb COVID-19 i gyflawni hyn.

***Gwasanaeth cyhoeddus allweddol*** – mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n hanfodol i redeg y system gyfiawnder, staff crefyddol, elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaeth rhengflaen allweddol, y rhai sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig, a newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

***Llywodraeth leol a chenedlaethol*** – mae hyn ond yn cynnwys y swyddi gweinyddol hynny sy'n hanfodol i gyflwyniad effeithiol yr ymateb COVID-19 neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol megis talu budd-daliadau, gan gynnwys asiantau mewnol llywodraeth a chyrrff hyd braich.

**Bwyd a nwyddau hanfodol eraill** – mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu, prosesu, dosbarthu a gwerthu bwyd yn ogystal â'r rhai sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft meddyginiaethau glanwaith a milfeddygol).

**Diogelwch cyhoeddus a chenedlaethol** – mae hyn yn cynnwys yr heddlu a staff cymorth, dinasyddion, contractwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn, staff y lluoedd arfog (y rhai sy'n hanfodol i gyflwyno amddiffyniad allweddol a diogelwch cenedlaethol sy'n hanfodol i'r ymateb i'r pandemig COVID-19), gweithwyr y gwasanaeth tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth), staff Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol, y rhai sy'n cynnal diogelwch ffiniau, staff carchardai a gwasanaeth prawf a swyddi diogelwch cenedlaethol eraill; gan gynnwys y rhai dramor.

**Cludiant** – mae hyn yn cynnwys y rhai a fydd yn cadw dulliau cludiant awyr, dŵr, ffyrdd a rheilffordd i deithwyr a nwyddau yn ystod yr ymateb COVID-19, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ar systemau cludiant y mae cadwyni cyflenwi yn mynd trwyddynt.

**Gwasanaethau cyfleustodau, cyfathrebu ac ariannol** – mae hyn yn cynnwys staff sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol hanfodol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i weithwyr mewn banciau, cymdeithasau adeiladu ac isadeiledd marchnad ariannol), y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth), sector technoleg gwybodaeth ac isadeiledd data a chyflenwadau diwydiant sylfaenol i barhau yn ystod yr ymateb COVID-19, yn ogystal â staff allweddol sy'n gweithio yn y gwasanaethau niwclear sifil, cemegion, telathrebu (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i weithrediadau rhwydwaith, peirianeg maes, staff canolfan alwadau, isadeiledd TG a data, 999 a 111), gwasanaethau post a dosbarthu, darparwyr taliadau a sectorau gwarediad gwastraff.

Fodd bynnag, mae angen bod yn glir ein **bod eisiau blaenoriaethu presenoldeb mewn ysgolion i'r rhai sydd wir angen bod yno ac sy'n gymwys i fod yno yn ôl y meini prawf hyn**. Os nad yw'r meini prawf yn berthnasol i chi, ni ddisgwylir i ysgolion gymryd eich plant. Byddwch yn ystyriol a dangos dealltwriaeth yn yr amseroedd heriol iawn hyn.

Bydd ein hysgolion hefyd ar agor i'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a fydd yn cael eu hadnabod gyda phenaethiaid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd eich ysgol yn cysylltu â chi yn bersonol ynglŷn â hyn.

Os dilynir y cyngor hwn, rydym yn hyderus y byddwn oll yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at amddiffyn ein disgyblion a'n staff.

*Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn yn ofalus iawn gyda'n hysgolion yn ddyddiol a byddwn yn eich hysbysu ynglŷn ag unrhyw newidiadau trwy'r dulliau cyfathrebu a chyfryngau arferol.*

*Yn gywir,*

*Ian Roberts*

*Prif Swyddog; Addysg ac Ymyrraeth Gynnar*

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam*

